Pennaeth Strategol
Bethan Emyr Jones
✉BethanEmyrJones@gwynedd.gov.uk
☎ **01678 520278**

Ysgol Bro Tegid
BALA
Gwynedd
LL23 7BN

20fed o Hydref 2016

Annwyl Rieni,

OPERATION CHRISTMAS CHILD

Fel y cofiwch, cafwyd cefnogaeth arbennig o'r ysgol hon y flwyddyn diwethaf tuag at y weithgaredd werthfawr uchod. Teimlwn y byddai yn syniad hyfryd eto eleni i blant yr ysgol fynd ati i wneud bocs yr un, neu bocs teulu, i'w hanfon i blant bach y gwledydd sydd wedi profi erchyllterau rhyfel a daeargryn a newyn, er mwyn sicrhau Nadolig hapus iddynt.

I'r diben yma amgaeaf daflen sydd yn esbonio sut i fynd ati i wneud bocs a beth i'w roi ynddo.

Dylid nodi ai bocs ar gyfer bachgen neu ferch ydyw ac oedran y plentyn. Byddai nodyn bychan yn dymuno Nadolig Llawen yn y bocs yn dderbyniol iawn.

Mae cais am **£3.00 neu fwy** i'w roi mewn amlen y tu mewn i'r bocs gyda'r daflen. Mae'n bwysig hefyd lapio'r bocs gyda phapur Nadolig a chofio lapio'r caead ar wahan.

Bydd angen dychwelyd y bocsus i'r ysgol erbyn dydd Llun 17 o Dachwedd.

Diolch i chi ymlaen llaw am gofio am y plant bach truenus hyn ac hyderwn y bydd yr anrhegion yma yn dod a gwên i wyneb plentyn bach amddifad neu di-gartref y Nadolig hwn.

Yn gywir iawn,

Bethan Emyr Jones (Pennaeth)